Estyn

Rhagoriaeth i bawb - Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Addysg mewn cartrefi plant

Mawrth 2008

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol (ALlau);
- ysgolion cynradd;
- ysgolion uwchradd;
- ysgolion arbennig;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- ysgolion annibynnol;
- addysg bellach;
- dysgu oedolion yn y gymuned;
- gwasanaethau cymorth ieuenctid;
- hyfforddiant gwaith ieuenctid a chymuned;
- ALlau;
- addysg a hyfforddiant athrawon;
- dysgu yn y gwaith;
- cwmnïau gyrfaoedd;
- dysgu troseddwyr; ac
- elfennau addysg, arweiniad a hyfforddiant y rhaglenni hyfforddi a ariennir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau.

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

**© Hawlfraint y Goron 2008: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen/cyhoeddiad.**

| Cynnwys | Tudalen |
|---|---|


| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | **1** |
| **Cefndir** | **3** |
| **Prif ganfyddiadau** | **5** |
| **Argymhellion** | **8** |
| **Bodloni anghenion dysgwyr** | **10** |
| Darpariaeth addysgol | 10 |
| Asesu a chadw cofnodion | 11 |
| Bodloni anghenion dysgwyr â datganiadau o anghenion addysgol arbennig | 12 |
| **Trefniadaeth y cwricwlwm** | **13** |
| Hawl i addysg | 13 |
| Ehangder a chydbwysedd | 14 |
| Ansawdd y cynllunio | 15 |
| Canlyniadau | 17 |
| **Adnoddau** | **21** |
| Cymwysterau staff a’r defnydd a wneir ohonynt | 21 |
| Darpariaeth adnoddau dysgu | 22 |
| **Lles dysgwyr** | **23** |
| Presenoldeb a phrydlondeb | 23 |
| Systemau gwobrwyo | 23 |
| Cysylltiadau â darparwyr addysg eraill a’r gymuned | 23 |
| **Atodiad 1** | |
| **Atodiad 2** | |
| **Atodiad 3** | |
| **Cyfeiriadau** | |

## Cyflwyniad

1 Yn ei chylch gwaith ar gyfer 2007-2008, gofynnodd Llywodraeth Cynulliad Cymru am archwiliad o'r addysg a ddarperir mewn ysgolion annibynnol newydd sy'n darparu addysg ar gyfer sefydliadau sy'n gweithredu cartrefi plant a sefydliadau bach eraill sydd wedi cofrestru gyda Chynulliad Cenedlaethol Cymru ers Deddf Addysg 2002. Nid oedd yn ofynnol i'r sefydliadau hyn gofrestru eu darpariaeth addysg cyn y Ddeddf. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys gwybodaeth am y ddarpariaeth honno.

2 Cynhelir y prosiect hwn yng nghyd-destun y cyfeiriad strategol a bennir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn 'Cymru: Gwlad Well'. Mae'n rhoi ystyriaeth benodol i weledigaeth y Llywodraeth ar gyfer cefnogi addysg gynhwysol yn seiliedig ar dystiolaeth o arfer effeithiol.

3 Ledled Cymru, mae nifer o gartrefi bach ar gyfer plant sy'n cael eu gweithredu'n breifat lle mae llai na phump o blant o oedran ysgol gorfodol yn byw. Mae'r rhan fwyaf o'r lleoliadau hyn, os nad pob un, yn cael arian cyhoeddus, naill ai oherwydd bod y plentyn mewn gofal cyhoeddus neu oherwydd bod ganddo ddatganiad o anghenion addysgol arbennig. Nid yw rhai o'r plant hyn yn cael addysg mewn ysgolion a gynhelir, yn aml oherwydd bod ganddynt gofnodion o ddiffyg presenoldeb neu eu bod wedi cael eu gwahardd yn barhaol, a'u bod yn cael eu haddysgu gartref. Ers cyflwyno Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, roedd angen i 20 o gartrefi bach ar gyfer plant sy'n cael eu gweithredu'n breifat wneud cais i Gynulliad Cenedlaethol Cymru i gofrestru eu darpariaeth addysg fel ysgolion annibynnol. Mae'r cylch gwaith hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar y ddarpariaeth hon.

4 Gofynnodd Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd y dylai'r adroddiad hwn gynnwys gwybodaeth am addysg pobl ifanc sy'n byw mewn cartrefi plant nad ydynt wedi gwneud cais i gofrestru gyda Chynulliad Cenedlaethol Cymru i ddarparu addysg ysgol annibynnol. Mae'r ddarpariaeth addysg ar gyfer y bobl ifanc hyn wedi bod yn agwedd bwysig ar y cylch gwaith hwn.

5 Mae'r adroddiad yn disgrifio'r arferion gwaith mewn ysgolion annibynnol sy'n darparu ar gyfer plant 'y gofelir amdanynt'[1] yn bennaf. Yn benodol, mae'n canolbwyntio ar:

- fodloni anghenion dysgwyr;
- trefniadaeth y cwricwlwm;
- adnoddau; a
- lles dysgwyr.

[1] Mae gan yr awdurdod lleol gyfrifoldeb rhiant cyfreithiol am y plant hyn. Defnyddir y term hefyd i ddisgrifio pob plentyn sy'n destun gorchymyn gofal, neu sy'n cael llety ar sail wirfoddol am fwy na 24 awr.

6 Mae’r adroddiad yn defnyddio:

- ymateb i holiadur manwl gan benaethiaid a rheolwyr gofal preswyl cartrefi plant;
- ymateb i holiadur byr gan sampl o ddysgwyr;
- cyfarfodydd gydag athrawon, penaethiaid, rheolwyr gofal preswyl a disgyblion mewn ystod o ysgolion a chartrefi plant ledled Cymru;
- trafodaethau ag ysgolion a gynhelir a swyddogion awdurdodau lleol;
- archwilio polisïau a chynlluniau gwaith wedi’u darparu gan ysgolion;
- adroddiadau wedi’u darparu gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn dilyn ymweliadau blynyddol â chartrefi plant;
- nodiadau Estyn o ymweliadau ag ysgolion annibynnol newydd yn dilyn arolygiadau cofrestru; a
- chyfeirio at astudiaethau perthnasol eraill a gynhaliwyd yng Nghymru, Lloegr a’r Alban.

## Cefndir

7 Mae Deddf Addysg 2002 yn diffinio ysgol annibynnol fel unrhyw ysgol sy'n darparu addysg amser llawn ar gyfer:

- pump o ddisgyblion neu fwy o oedran ysgol gorfodol; neu
- un disgybl neu fwy sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig neu sydd mewn gofal cyhoeddus nad yw'n ysgol a gynhelir gan yr awdurdod addysg lleol.

8 Mae Deddf Addysg 2002 yn ei gwneud yn ofynnol bod yn rhaid i bob ysgol annibynnol fod wedi cofrestru â Chynulliad Cenedlaethol Cymru a'i bod yn cydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003[2].

9 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cytuno ar weithdrefnau gydag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ac Estyn ar gyfer arfarnu cydymffurfiad ysgol â'r rheoliadau a pharodrwydd ar gyfer gweithredu. Mae'r rhain yn cynnwys arolygiadau cofrestru o'r adeiladau, y ddarpariaeth addysg a dogfennaeth yr ysgol a'i gweithdrefnau o ddydd i ddydd. Mae'n ofynnol i ysgol nad yw'n bodloni'r 'Safonau' lunio cynllun gweithredu ar gyfer Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n nodi'r camau y bydd yn eu cymryd i wella. Mae Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol yn erbyn y cynllun ac yn adrodd i Lywodraeth Cynulliad Cymru.

10 Er mis Medi 2003, mae 29 o ysgolion annibynnol newydd wedi gwneud cais i gofrestru. O'r rhain, mae 22 o ysgolion wedi cwblhau'r broses gofrestru yn llwyddiannus ac mae cofrestriad pedair ysgol arall yn cael ei ystyried ar hyn o bryd. Nid oedd dwy ysgol annibynnol newydd yn gallu bodloni gofynion y rheoliadau oherwydd bod eu hadeiladau yn anaddas ac maent wedi tynnu eu ceisiadau yn ôl. Mae un ysgol arall wedi cau.

11 Mae 20 o'r ysgolion annibynnol a gofrestrwyd yn ddiweddar dim ond yn addysgu plant y gofelir amdanynt sy'n byw mewn cartref preifat i blant, y mae gan lawer ohonynt ddatganiadau o anghenion addysgol arbennig.

12 Mae mwyafrif y cartrefi plant, p'un a ydynt yn gartrefi a gynhelir neu'n gartrefi sy'n cael eu gweithredu'n breifat, yn gwneud trefniadau i bobl ifanc gael addysg a ddarperir gan yr awdurdod lleol y mae'r cartref wedi'i leoli ynddo. Gallai'r ddarpariaeth hon fod:

- mewn ysgol arbennig leol a gynhelir neu ysgol prif ffrwd;
- mewn uned cyfeirio disgyblion a gynhelir gan yr awdurdod lleol; neu
- gan diwtoriaid cartref sy'n ymweld â'r cartref plant.

---
[2] gweler Atodiad 1

13 Ers Deddf Addysg 2002, o'r sefydliadau sy'n gweithredu cartrefi preifat i blant sydd â darpariaeth ysgol annibynnol gofrestredig yn arbennig ar gyfer pobl ifanc yn eu gofal, gallai'r sefydliad weithredu:

- ysgol 'ategol' ar un safle i addysgu pobl ifanc sy'n teithio i'r ysgol o'i gwahanol gartrefi plant yn yr ardal (un ysgol);
- ysgol sydd wedi'i lleoli mewn adeilad ychwanegol ar y safle ar gyfer pobl ifanc sy'n byw yn y cartref plant (pedair ysgol); neu
- ysgol fechan yn y cartref plant ei hun sy'n debyg i ddarpariaeth gwersi gartref (15 ysgol).

14 Mae'r bobl ifanc sy'n mynychu'r ysgolion annibynnol hyn a gofrestrwyd yn ddiweddar i gyd yn byw mewn cartrefi plant sy'n cynnig llety ar gyfer llai na phump o bobl ifanc; mae'r rhan fwyaf yn cynnig llety i un neu ddau yn unig. Caiff pob cartref ei redeg gan reolwr gofal preswyl. Caiff y bobl ifanc hefyd eu cefnogi gartref gan dimau o staff gofal sydd fel arfer yn cymryd rhan yn y rhaglen addysg. Mae eu rolau yn amrywio o un ysgol i'r llall.

15 Yn sgil ymchwil a gynhaliwyd yn 2004 gan y Comisiwn Gofal ac Arolygiaeth Addysg Ei Mawrhydi yn (HMIE) Yr Alban o'r enw: 'Residential Care and Education: Improving practice in residential special schools in Scotland', canfuwyd:

> "lle'r oedd arfer yn dda, roedd gweithwyr allweddol ac athrawon allweddol yn gweithio â'i gilydd yn agos i gefnogi pobl ifanc wrth iddynt ddatblygu eu galluoedd mewn dysgu, perthnasoedd rhyngbersonol ac ystod o fedrau byw yn annibynnol".

16 Yn y cartrefi plant nad ydynt wedi cofrestru i ddarparu addysg annibynnol ond yr ymwelwyd â nhw fel rhan o'r cylch gwaith hwn, mae amrywiaeth o drefniadau i ddarparu addysg ar gyfer eu preswylwyr. Yr awdurdod lleol lle mae'r cartref plant wedi'i leoli yn ddaearyddol sy'n gyfrifol am fonitro'r trefniadau hyn. Caiff y trefniadau ar gyfer addysg eu nodi gan AGGCC yn eu hadroddiadau blynyddol o ymweliadau â phob cartref. Mae AGGCC yn cydnabod pwysigrwydd addysg yn yr adroddiadau hyn.

17 At ddiben yr adroddiad hwn, cyfeirir at ysgolion annibynnol a gofrestrwyd yn ddiweddar fel 'ysgolion AC'.

## Prif ganfyddiadau

18 Mae'r trefniadau ar gyfer addysgu pobl ifanc mewn cartrefi plant yn gymhleth oherwydd amrywiaeth y ddarpariaeth. Mae natur ac ansawdd y ddarpariaeth yn dibynnu ar ba mor bwysig yw addysg fel blaenoriaeth i'r sefydliadau sy'n rhedeg cartrefi plant.

19 Nid yw'r rhan fwyaf o ysgolion annibynnol newydd yn gyfarwydd â manylder y gofynion ar gyfer cofrestru pan fyddant yn gwneud cais amdano ar y cychwyn. Fodd bynnag, maent yn gwneud cynnydd da ar y cyfan wrth ddilyn argymhellion i fodloni'r gofynion ar gyfer agor. Mae nifer fach o ysgolion yn achosi pryder oherwydd nad ydynt yn gwneud digon i wella darpariaeth o fewn graddfa amser resymol.

20 Sefydliadau bach sy'n darparu addysg ar gyfer plant y gofelir amdanynt a disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yw'r rhan fwyaf o'r ysgolion sydd wedi cael eu cofrestru gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru er mis Medi 2003. Mae'r ddarpariaeth addysg bron ym mhob un o'r ysgolion hyn fel arfer yn gadarn er bod yr ansawdd yn amrywio.

### Ysgolion annibynnol cofrestredig (AC)

21 Yn y 15 o ysgolion bach sy'n gweithredu mewn cartrefi plant, nid yw pob disgybl yn cael yr un hawl i addysg. Mae faint o amser y mae'r athro'n ei dreulio gyda disgyblion yn amrywio gormod o un ysgol i'r llall. Bron ym mhob un o'r ysgolion hyn, disgwylir i staff gofal gefnogi'r rhaglen addysg trwy oruchwylio gweithgareddau dilynol pan na fydd yr athro ar y safle. Mae ansawdd y gweithgareddau hyn yn rhy amrywiol ac nid yw'r gweithgareddau yn cysylltu'n ddigon da â'r testunau y mae disgyblion yn eu hastudio mewn gwersi bob tro.

22 Yn yr ysgolion AC mwyaf effeithiol, mae athrawon a staff gofal yn gweithio gyda'i gilydd yn dda iawn i gynllunio tasgau a phrosiectau priodol. Yn amlach na pheidio, nid yw staff gofal yn gwybod sut i helpu disgyblion â gweithgareddau dilynol yn ddigon da, felly gall gwerth y gweithgareddau hyn fod yn gyfyngedig.

23 Pan na fydd addysg yn cael ei gwerthfawrogi digon gan bawb yn yr ysgol AC, nid yw disgyblion yn ymddwyn cystal ac mae'n anodd ennyn eu diddordeb.

24 Dim ond nifer fach o ysgolion AC sy'n asesu disgyblion newydd yn drylwyr neu'n monitro eu cynnydd yn rheolaidd er mwyn defnyddio'r wybodaeth i wneud yn siŵr bod cynllunio gwersi yn briodol i fodloni anghenion disgyblion. Mae'r ysgolion sy'n gwneud hyn yn helpu disgyblion i wneud cynnydd ac mae'r disgyblion yn llwyddo'n fwy.

25 Mae awdurdodau lleoli[3] o bob cwr o'r DU yn esgeuluso eu rôl fel rhieni corfforaethol o ran addysg plant y gofelir amdanynt mewn lleoliadau yng Nghymru. Mae'r rhan fwyaf yn rhy araf yn darparu cofnodion disgyblion ar gyfer ysgolion AC; nid ydynt yn diweddaru gwybodaeth nac yn monitro cynnydd disgyblion yn ddigon da.

---

[3] Gallai lleoliadau plant y gofelir amdanynt gael eu trefnu a'u hariannu gan adrannau addysg neu wasanaethau cymdeithasol awdurdod lleol cartref y plentyn neu gan y bwrdd iechyd lleol yn yr ardal honno. Gallai lleoliadau gynnwys mwy nag un o'r cyrff hyn, ond adran gwasanaethau cymdeithasol awdurdod cartref y plentyn sy'n gyfrifol am fonitro'r lleoliad fel rhiant corfforaethol yn y pen draw.

26 Ychydig iawn o awdurdodau lleoli sy'n gofyn caniatâd i roi disgyblion â datganiadau o anghenion addysgol arbennig mewn ysgolion AC cyn gwneud hynny. O ganlyniad, mae potensial i ddisgyblion gael eu lleoli mewn ysgolion nad ydynt yn gallu bodloni eu hanghenion. Gallai cais ôl-weithredol am ganiatâd arwain at symud disgybl eto os nad yw'r ysgol yn cael ei hystyried yn addas ac nid yw hyn yn dderbyniol i'r disgyblion hyn sy'n agored i niwed. Er enghraifft, cafodd disgybl ag anhwylder sbectrwm awtistig ei rhoi mewn ysgol lle nad oedd staff yn gwybod digon am ei hanghenion i drefnu darpariaeth ddigonol ar ei chyfer.

27 Mae nifer fach o ysgolion AC nad ydynt yn ddigon ymwybodol o'u cyfrifoldebau ar gyfer disgyblion â datganiadau o anghenion addysgol arbennig. Nid ydynt yn cynllunio nac yn monitro cynnydd y disgyblion hyn yn ddigon da.

28 Mae disgyblion heriol mewn ysgolion AC bach iawn yn gwneud y cynnydd gorau pan fydd gan athrawon brofiad priodol a disgwyliadau clir a phan fyddant yn cynllunio ac yn monitro rhaglenni addysg unigol sy'n anelu at fodloni eu hanghenion unigol.

29 Nid oes unrhyw ysgolion AC yn cynnig ystod lawn o bynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol na rhaglenni astudio i ddisgyblion, ond mae pob ysgol yn cynnig profiad i ddisgyblion yn y saith maes dysgu yn unol â'r hyn sy'n ofynnol gan y 'Safonau'[4]. Yn gyffredinol, mae ysgolion yn cynnig rhaglen gymysg sy'n cynnwys medrau sylfaenol mewn llythrennedd a rhifedd yn ogystal â chyrsiau priodol mewn medrau bywyd. Mae gweithgaredd corfforol yn nodwedd gref ar y cwricwlwm bron ym mhob ysgol. Profiad o weithgaredd creadigol yw'r maes gwannaf ac er bod rhai disgyblion yn cael gwersi celf, prin iawn yw'r ddarpariaeth ar gyfer cerddoriaeth.

30 Mae systemau gwobrwyo yn gweithio'n dda lle cânt eu cymhwyso'n gyson ar draws addysg a gofal gyda phob parti yn gweithio gyda'i gilydd.

31 Nid yw tua hanner yr ysgolion AC newydd yn cydymffurfio â gofynion Rheoliadau Gwahaniaethu ar Sail Anabledd (Cymru) 2003. Nid ydynt yn cynllunio'n ddigon da ar gyfer disgyblion anabl a allai fod yn dymuno ymuno â'r ysgol neu ar gyfer staff ac ymwelwyr anabl.

32 At ei gilydd, mae arolygiadau cofrestru Estyn yn nodi sylfaen resymol gadarn ar gyfer addysg yn y rhan fwyaf o ysgolion AC sydd â'r potensial i arwain at safonau uwch a chanlyniadau gwell ar gyfer disgyblion, os eir i'r afael â'r argymhellion yn llwyddiannus.

### Darpariaeth addysg anghofrestredig

33 Mae ansawdd yr addysg a ddarperir ar gyfer pobl ifanc mewn cartrefi plant nad ydynt yn gysylltiedig ag ysgol annibynnol gofrestredig yn amrywio gormod. Mae llawer o ddysgwyr o'r cartrefi plant hyn yn mynychu darpariaeth a gynhelir mewn ysgol leol neu uned cyfeirio disgyblion tra bydd eraill yn cael cymysgedd o wersi gartref, addysg ran-amser yn yr awyr agored neu ddim addysg o gwbl. Mae'n achos pryder nad yw'r ddarpariaeth hon yn aml yn cael ei monitro'n ddigon da naill ai gan yr awdurdod lleol lle mae'r cartref plant wedi'i leoli na chan yr awdurdod lleoli.

[4] gweler Atodiad 2

34 Mae nifer fach o gartrefi preifat i blant yn y sampl yr ymwelwyd â hi yn cynnig addysg ond nid ydynt wedi cofrestru eu darpariaeth fel ysgolion annibynnol. Mae ansicrwydd ynghylch y gofyniad i gofrestru oherwydd bod y cartrefi plant hyn bron bob tro dim ond yn trefnu rhaglen ran-amser o weithgaredd addysg nad yw'n cael ei gynllunio gan athro cymwys. Fodd bynnag, nid yw dysgwyr yn y cartrefi plant hynny yn cael eu hawl lawn i addysg ac nid yw'r ddarpariaeth addysg yn cael ei monitro'n ddigon da.

35 Mewn cartrefi plant nad ydynt yn gysylltiedig ag ysgolion annibynnol a lle nad yw pobl ifanc yn mynychu darpariaeth addysg a gynhelir, mae diffygion yn y cynllunio ar gyfer ehangder a chydbwysedd y cwricwlwm. Yn gyffredinol, mae hyn yn arwain at ormod o weithgaredd personol a chymdeithasol fel siopa, golchi dillad a choginio neu weithgaredd anffurfiol sy'n cael ei bennu gan y bobl ifanc.

## Argymhellion

**Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru:**

A1 ystyried ceisio gwneud trefniadau ffurfiol ag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru i adrodd yn uniongyrchol i Lywodraeth Cynulliad Cymru lle nad yw pobl ifanc mewn cartrefi plant yn cael eu haddysgu mewn darpariaeth a gynhelir; a

A2 sicrhau bod ysgolion annibynnol cofrestredig:

- yn cynnal cofrestri presenoldeb dyddiol sy'n cydymffurfio â rheoliadau; ac
- yn cyflawni gofynion Rheoliadau Gwahaniaethu ar Sail Anabledd (Cymru) 2003.

**Dylai awdurdodau lleol:**

A3 roi cofnodion addysg disgyblion i ysgolion AC yn fwy prydlon a sicrhau bod y rhain yn cynnwys gwybodaeth gyfoes;

A4 cymryd rôl fwy cadarnhaol fel rhieni corfforaethol trwy gynnal cyswllt gwell ag ysgolion AC a mynychu pob cyfarfod adolygu statudol o ddisgyblion â datganiadau o anghenion addysgol arbennig; a

A5 gweithredu'n fwy effeithiol yr argymhellion o adroddiad Estyn, dyddiedig mis Mawrth 2007 o'r enw "Arfer awdurdodau lleol wrth fonitro lleoliad disgyblion sy'n cael eu haddysgu y tu allan i leoliad yr ysgol a'r rheiny sydd ar goll o addysg".

**Dylai ysgolion annibynnol cofrestredig:**

A6 gynnal asesiad cychwynnol o ddisgyblion newydd, monitro eu cynnydd yn effeithiol a defnyddio'r wybodaeth i gynllunio'n briodol i fodloni anghenion dysgu disgyblion;

A7 cynnwys staff addysgu a gofal wrth gynllunio rhaglen amrywiol ar draws y saith maes dysgu sy'n cynnwys canlyniadau dysgu clir, gweithgareddau priodol ac yn defnyddio ystod o adnoddau, yn enwedig ar gyfer celf, dylunio a thechnoleg a cherddoriaeth;

A8 datblygu ymhellach y cyfleoedd i ddisgyblion ddilyn cyrsiau achrededig;

A9 arfarnu a monitro'n fwy trylwyr y rhaglenni astudio addysg ar gyfer disgyblion sy'n mynychu sefydliadau eraill ar gyfer rhan o'u haddysg;

A10 cadw cofrestri presenoldeb dyddiol cywir sy'n cydymffurfio â rheoliadau ac yn monitro presenoldeb a phrydlondeb y disgyblion yn fwy effeithiol; a

A11 chynnig datblygiad proffesiynol gwell ar gyfer staff.

**Dylai sefydliadau sy’n gweithredu cartrefi plant heb gofrestru fel ysgol annibynnol:**

A12 sicrhau bod pobl ifanc yn eu gofal yn cael eu hawl lawn i addysg naill ai mewn darpariaeth a gynhelir neu drwy ddarparu gwersi priodol gartref neu drwy gydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003.

**Dylai Estyn ac AGGCC:**

A13 barhau i weithio mewn partneriaeth i fonitro’r ddarpariaeth addysg ar gyfer pob person ifanc sy’n byw mewn cartrefi plant a rhoi gwybodaeth i Lywodraeth Cynulliad Cymru ynglŷn ag a yw’r ddarpariaeth yn bodloni gofynion rheoleiddio.

**Dylai Estyn:**

A14 ddatblygu ymhellach y gweithdrefnau adrodd ar gyfer awdurdodau lleoli dros y ffin.

## Bodloni anghenion dysgwyr

### Darpariaeth addysgol

36 Mae 126 o gartrefi plant ledled Cymru, gan gynnwys cartrefi sy’n cael eu cynnal gan y wladwriaeth a chartrefi sy’n cael eu gweithredu’n breifat, sy’n derbyn plant y gofelir amdanynt. Mae rhai awdurdodau lleol yng Nghymru yn gweithredu cartrefi plant i dderbyn pobl ifanc o’u hardal leol, yn aml i ddarparu gofal seibiant tymor byr.

37 Mae 95 o gartrefi plant sy’n cael eu gweithredu’n breifat yng Nghymru. Mae’r cartrefi hyn bron bob tro yn derbyn pobl ifanc 11-16 oed ag anghenion addysgol arbennig sy’n cynnwys ymddygiad heriol iawn. Mae llawer o bobl ifanc wedi symud lleoliad llawer o weithiau ac mae gan y rhan fwyaf ohonynt hanes o fethu mewn addysg mewn ysgolion blaenorol. Caiff y bobl ifanc hyn yn aml eu lleoli, ar fyr rybudd, ar frys, ac mae llawer ohonynt ymhell o gartref. Caiff mwyafrif y dysgwyr hyn eu lleoli gan awdurdodau o’r tu allan i Gymru.

38 Mae Arweiniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar ‘Addysg Plant sy’n Derbyn Gofal gan Awdurdodau Lleol’ (2001) yn datgan y dylai “awdurdodau lleol sicrhau lleoliad addysg addas ar gyfer plentyn y gofelir amdano o fewn 20 diwrnod ar ôl i’r plentyn ddechrau derbyn gofal”. Fodd bynnag, gallai awdurdodau lle mae cartrefi plant wedi’u lleoli ei chael yn anodd darparu lleoliadau addysg priodol a gallant fod yn amharod i dderbyn cyfrifoldeb am ddisgyblion heriol sy’n cyrraedd yr awdurdod o rywle arall.

39 Mae’r trefniadau ar gyfer addysgu pobl ifanc sy’n byw mewn cartrefi plant sy’n cael eu gweithredu’n breifat yn amrywio o addysg brif ffrwd amser llawn i bron dim addysg o gwbl.

40 Mae’r rhan fwyaf o ysgolion annibynnol cofrestredig (AC) newydd mewn ardaloedd gwledig ac maent yn anghysbell yn ddaearyddol. Mae pob un ohonynt yn darparu prydau iach. Nid oes gan yr un ohonynt wisg ysgol. Mae staff gofal fel arfer yn mynd â disgyblion i weithgareddau oddi ar y safle fel canolfannau chwaraeon lleol yng ngherbydau’r sefydliad. Mae staff gofal hefyd yn mynd â disgyblion sy’n mynychu’r ‘ysgol ategol’ i’r ysgol ac oddi yno.

41 Mae rhai pobl ifanc sy’n byw mewn cartrefi plant ar y ffin â Lloegr yn mynychu ysgolion annibynnol sydd wedi’u cofrestru â DCSF[5] yn Lloegr.

42 Mewn pump o gartrefi preifat i blant yr ymwelwyd â nhw fel rhan o’r prosiect hwn nad ydynt wedi cofrestru i ddarparu addysg, nid yw ansawdd darpariaeth addysg pobl ifanc yn cael ei fonitro yn ddigon da. Nid yw’r bobl ifanc hyn yn cael eu hawl addysgol. Mae tri o’r pum cartref hyn yn darparu addysg. Mewn dau gartref arall, nid yw pobl ifanc yn cael addysg briodol. Mewn un achos, roedd yr awdurdod lleol wedi methu trefnu darpariaeth er gwaethaf ymdrechion y rheolwr gofal a’r awdurdod lleoli. Yn yr achos arall, roedd y sefydliad wedi methu gwneud unrhyw drefniadau. Mae un adroddiad AGGCC yn disgrifio’r ddarpariaeth addysg mewn un cartref fel ‘elfennol’.

[5] Yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd

43 Mae llai na phedwar o bobl ifanc yn byw yn y rhan fwyaf o gartrefi plant, ac weithiau dim ond un sydd yno. Pan fydd y bobl ifanc yn cael eu haddysgu yn y cartref, ychydig iawn o gyfle a gânt i gyfarfod â disgyblion eraill o'r un oedran. Er y gallai hyn fod yn fanteisiol i ddiogelwch y bobl ifanc eu hunain, ni chânt ddigon o gyfleoedd i ddatblygu medrau cymdeithasol.

44 Mae un sefydliad yn cyflogi pennaeth i oruchwylio addysg disgyblion ym mhob un o'i saith cartref plant. Caiff y disgyblion hyn gyfleoedd da ond prin i gyfarfod gyda'i gilydd fel grŵp ar gyfer diwrnodau allan arbennig.

45 Mae un ysgol gofrestredig yn anarferol i'r graddau ei bod yn darparu'r rhan fwyaf o'i haddysgu ar-lein trwy'r rhyngrwyd a chysylltiadau ag ysgol arall bob wythnos er mwyn i ddysgwyr allu profi gweithgareddau ymarferol a chyfarfod â phobl ifanc eraill.

## Asesu a chadw cofnodion

46 Mae awdurdodau lleoli yn aml yn araf iawn yn rhoi cofnodion o hanes addysg disgyblion newydd i ysgolion AC, a phan fydd yn cyrraedd, gall y wybodaeth yn anghyflawn ac wedi dyddio.

47 Mae trefniadau ysgolion AC ar gyfer asesu disgyblion newydd pan fyddant yn cyrraedd ysgol yn amrywio gormod ar y cychwyn. Mewn llawer o achosion, mae dysgwyr wedi colli llawer o addysg oherwydd eu bod wedi symud lleoliadau, wedi cael eu gwahardd o ysgolion neu ddim wedi mynychu. Mae'r rhan fwyaf yn gweithio ar lefelau sydd ymhell islaw eu hoedrannau cronolegol. Mae angen i athrawon asesu disgyblion newydd ar unwaith er mwyn cynllunio rhaglen addysg briodol.

48 Yn yr arfer orau, pan fydd disgyblion newydd yn cyrraedd, mae tua 25% o ysgolion AC yn defnyddio eu systemau trylwyr eu hunain i asesu medrau sylfaenol disgyblion. Maent yn cadw cofnodion manwl ac yn monitro cynnydd disgyblion yn ofalus yn rheolaidd. Mae'r ysgolion hyn yn defnyddio asesu yn dda i gynllunio rhaglenni gwaith unigol priodol ar gyfer disgyblion er mwyn bodloni eu hanghenion a gallant ddangos tystiolaeth dda iawn o gynnydd disgyblion. Mewn nifer fach o achosion, yn briodol mae'r ysgol yn cyflogi seicolegydd addysg i ddarparu asesiad manylach. Mae ysgolion AC sy'n asesu disgyblion yn ofalus yn cwblhau cynlluniau addysg personol (CAP)[6] disgyblion yn dda bron bob tro ac maent yn deall bod dysgwyr yn gwerthfawrogi'r cynlluniau hyn.

49 Mewn ychydig llai na hanner yr ysgolion AC, mae'r asesu cychwynnol yn wan ac fe gaiff hyn effaith sylweddol ar ansawdd yr addysg a gaiff ei chynllunio a'i darparu. Nid oes gan lawer o ddisgyblion CAP, er gwaethaf argymhelliad Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn 2001[7] y dylai "pob plentyn sy'n derbyn gofal gael CAP".

50 Caiff ysgolion AC ymatebion cymysg iawn pan fyddant yn gofyn am wybodaeth am ddisgyblion o awdurdodau lleoli ledled y DU. Mae'r gofyniad i sicrhau bod gan bob plentyn y gofelir amdano CAP o fewn 20 diwrnod o ymuno ag ysgol newydd yn dibynnu ar p'un a yw'r wybodaeth wedi cyrraedd oddi wrth yr awdurdod lleoli. Mae'r diffyg o ran y wybodaeth hon fel arfer yn ddiffyg pwysig sy'n effeithio ar allu'r ysgolion i gydymffurfio â'r gofyniad.

6 gweler Atodiad 3

7 Arweiniad ar addysg plant sy'n derbyn gofal gan awdurdodau lleol (Cynulliad Cenedlaethol Cymru Cylchlythyr 2/2001)

51 Un mater arall sy'n achosi pryder yw'r angen i roi mwy o ystyriaeth i nifer fawr y plant y gofelir amdanynt yng Nghymru sy'n cael eu lleoli dros y ffin. Yn ei chyhoeddiad 'Tuag at Fywyd Sefydlog a Dyfodol Gwell', mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn amlinellu gofynion i awdurdodau lleol gydlynu anghenion pobl ifanc sy'n cael gofal yn eu hardal yn fwy effeithiol, ond mae cydlynu ag awdurdodau lleoli eraill yn y DU yn gymhleth.

**Bodloni anghenion dysgwyr â datganiadau o anghenion addysgol arbennig**

52 Mae bron pob ysgol AC newydd yn addysgu disgyblion ag anghenion addysgol arbennig sylweddol. Mae gan bron pob un o'r disgyblion yn yr ysgolion hyn anhwylderau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiad (ACEY), ond tua hanner y disgyblion hyn yn unig sydd â datganiadau o anghenion addysgol arbennig.

53 Mae'n ofynnol i awdurdodau lleoli ofyn am ganiatâd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru cyn lleoli disgybl ag anghenion addysgol arbennig mewn ysgol AC. Mae hyn er mwyn sicrhau bod yr ysgol yn briodol ar gyfer bodloni anghenion y disgybl hwnnw. Nifer fach iawn o awdurdodau lleoli sy'n gofyn am ganiatâd cyn lleoli disgyblion, ac felly nid oes mesur o addasrwydd yr ysgol AC. Gallai cais ôl-weithredol am ganiatâd olygu bod disgybl yn cael ei symud eto os nad yw'r ysgol yn cael ei hystyried yn addas ac nid yw hyn yn dderbyniol ar gyfer y disgyblion hyn sy'n agored i niwed.

54 Nid yw ysgolion AC yn cael copi o ddatganiad o anghenion addysgol arbennig disgybl gan yr awdurdod lleoli bob tro, ac mae hyn yn effeithio ar allu'r ysgol i gynllunio darpariaeth briodol. Mae datganiadau o anghenion addysgol arbennig disgyblion yn aml wedi dyddio. Er enghraifft, ar un ymweliad diweddar, y dyddiad ar y datganiad oedd 1997, pan oedd y disgybl yn 4 oed, ac nid oedd unrhyw wybodaeth gyfoes i helpu'r ysgol i gynllunio'n briodol ar gyfer y disgybl sydd bellach yn 14 oed.

55 Mae gan nifer fach o ysgolion AC wybodaeth dda iawn am y broses ddatganiadau a'r gofynion rheoleiddio cysylltiedig. Maent yn cyfarfod â swyddogion lleoli naill ai yn yr ysgol neu'n teithio i'r awdurdod (sy'n aml yn eithaf pell) ac yn gwneud yn siŵr bod cofnodion ac adroddiadau ysgrifenedig priodol yn eu trefn. Mae'r trefniadau hyn yn aml yn cynnwys lleoliadau dros y ffin y mae'n anodd eu holrhain oherwydd nad oes gan ysgolion ddigon o wybodaeth am drefniadau a phersonél yr awdurdod lleoli.

56 Mewn nifer fach iawn o achosion, nid yw ysgolion AC yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau am ddisgyblion â datganiadau o anghenion addysgol arbennig. Nid ydynt yn gyfarwydd â'r gweithdrefnau ar gyfer cyfarfodydd adolygu blynyddol ac adrodd i awdurdodau lleoli.

57 Nifer fach iawn o awdurdodau lleoli yng Nghymru ac yng ngweddill y DU sy'n trefnu mynychu cyfarfodydd adolygu blynyddol disgyblion yn yr ysgolion AC bach hyn. Felly, ni chaiff cynnydd disgyblion ei fonitro yn ddigon da ac nid yw ymdrechion disgyblion yn cael eu cydnabod a'u dathlu.

## Trefniadaeth y cwricwlwm

### Hawl i addysg

58 Y gofyniad a argymhellir yng Nghymru o ran darpariaeth addysg ar gyfer disgyblion 11-16 oed yw 24 i 25 awr yr wythnos[8]. Mae Cylchlythyr 47/2006 Cynulliad Cenedlaethol Cymru o'r enw 'Cynhwysiad a Chymorth' yn datgan:

> "Nid yw darpariaeth addysg amser llawn o fewn y raddfa amser bob tro yn bosibl i'r disgyblion hyn a allai fod wedi ymddieithrio o addysg. Fel arall, gallai eu hamgylchiadau presennol fod cynddrwg, nes bod eu hailgyflwyno'n gyflym i addysg amser llawn yn debygol o fod yn aflwyddiannus. I'r disgyblion hyn, dylai'r cynlluniau ar gyfer eu haddysg yn y dyfodol ymdrin yn benodol â sut i symud i addysg amser llawn".

59 Mae ysgolion AC sy'n addysgu disgyblion ag anghenion addysgol arbennig, gan gynnwys y rheiny nad oes ganddynt ddatganiadau o anghenion addysgol arbennig, yn dehongli'r datganiad hwn ac yn trefnu'r cwricwlwm mewn amrywiaeth o wahanol ffyrdd.

60 Yn yr arfer orau, mae ysgolion AC yn darparu rhaglen addysg amser llawn, a gyflwynir gan staff addysgu a staff cymorth cymwys a phrofiadol. Mae'r trefniadau hyn yn gyffredin mewn ysgolion 'ategol' ac 'ychwanegol'. Fodd bynnag, caiff addysgu uniongyrchol a ddarperir gan ysgolion AC mewn cartrefi plant fel arfer ei drefnu ar sail ran-amser, gyda'r ddarpariaeth amser llawn yn dibynnu ar staff gofal yn cefnogi'r athro i ddarparu gweithgareddau dilynol.

61 Gall amser addysgu uniongyrchol mewn ysgolion AC mewn cartrefi plant amrywio o 5 i 26 awr o addysgu 1:1 bob wythnos. Lle bydd yr amser addysgu yn llai na'r gofyniad a argymhellir, mae'r ysgolion hyn fel arfer yn trefnu i staff gofal oruchwylio ystod o weithgareddau corfforol, personol a chymdeithasol wedi'u trefnu am weddill y diwrnod. Nid yw rhai disgyblion yn gwerthfawrogi gweithgareddau dilynol na gwaith cartref ddigon ac nid ydynt yn defnyddio eu hamser yn dda i wneud y cynnydd y gallent.

62 Mae dwy ysgol AC yn trefnu eu cwricwlwm rhan-amser dyddiol yn effeithiol dros flwyddyn 52 wythnos lawn bron er mwyn i ddisgyblion ymgyfarwyddo â threfn waith nad yw gwyliau ysgol hir yn tarfu arni. At ei gilydd, mae hyn yn gwneud rhywfaint o iawn am y diffyg darpariaeth wythnosol o 24 neu 25 awr.

63 Fodd bynnag, nid yw cynnig amser addysgu mwy uniongyrchol yn arwain at wersi o ansawdd da neu ganlyniadau cadarnhaol i ddisgyblion bob tro. Er enghraifft, mewn un ysgol AC lle mae'r amser addysgu uniongyrchol yn gyfyngedig iawn, mae ansawdd y cynllunio gwersi yn uchel, ceir perthynas dda iawn rhwng pawb dan sylw, ac mae'r disgyblion yn gwneud cynnydd amlwg dros gyfnod wrth wella eu hagweddau a'u cyflawniadau. Mae hyn oherwydd bod pawb yng nghymuned yr ysgol yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i hyrwyddo dysgu.

---

[8] Cylchlythyr CCC 47/2006 Adran 5, paragraff 1.8: 24 awr ar gyfer cyfnodau allweddol 3-4, 25 awr ym Mlwyddyn 11

64 Nid yw nifer fach o gartrefi plant sy'n cael eu gweithredu'n breifat yn gwneud yn siwr bod eu pobl ifanc yn cael addysg sy'n bodloni eu hanghenion. Nid yw rhai pobl ifanc yn cael unrhyw addysg ffurfiol o gwbl. Nodir y rhesymau am hyn yng nghyhoeddiad cynharach Estyn, "Arfer awdurdodau lleol wrth fonitro lleoliad disgyblion sy'n cael eu haddysgu y tu allan i leoliad yr ysgol a'r rheiny sydd ar goll o addysg" (2007). Nid yw rhai staff mewn cartrefi plant yn ddigon ymwybodol o'u cyfrifoldebau am addysg pobl ifanc ac nid ydynt yn gwneud digon i wneud yn siwr eu bod yn mynychu'n rheolaidd nac yn gwneud yn siwr bod y rhaglen yn addas. Er enghraifft, roedd un person ifanc mewn un cartref yn cael mynediad at addysg yn yr awyr agored yn unig.

65 Gall lleoliadau mewn ysgolion a gynhelir fethu yn hawdd os yw ymddygiad disgyblion yn heriol. Mae un lleoliad yn dweud bod y disgybl sy'n mynychu uned cyfeirio disgyblion leol yn cael ei wahardd yn rhy aml. Mae cartref plant arall yn darparu gwersi gartref ond nid yw hyn yn cael ei fonitro'n ddigon da ac mae tystiolaeth yn awgrymu nad yw'n bodloni anghenion y dysgwyr. Nid yw awdurdodau lleol yn monitro'r ddarpariaeth hon yn ddigon da chwaith. Amlygwyd yr un broblem yn Lloegr mewn adroddiad ar "Children in care missing out on education" yn 2001 ond ychydig sydd wedi newid i wella lleoli neu awdurdodau derbyn yn bodloni eu rolau. Mae awdurdodau yn aml yn ymwneud â lleoli plant dros y ffin ac maent yn esgeuluso addysg y plant hyn.

## Ehangder a chydbwysedd

66 Mae Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003 yn nodi bod yn rhaid i gwricwlwm ysgol roi profiad mewn saith maes dysgu i ddisgyblion o oedran ysgol gorfodol, sy'n cynnwys: ieithyddol, mathemategol, gwyddonol, technolegol, dynol a chymdeithasol, corfforol, ac esthetig a chreadigol. Fel rhan o'r broses gofrestru, mae arolygwyr Estyn yn ystyried i ba raddau y mae ysgolion newydd yn rhoi cydbwysedd o weithgareddau addas i ddisgyblion ym mhob un o'r saith maes. Fe wnaeth yr arolygiad cofrestru cychwynnol nodi diffygion yng nghynlluniau cwricwlwm tua hanner yr ysgolion. Gweithredodd bron pob ysgol ar unwaith i weithredu argymhellion Estyn i wella'r cwricwlwm a threfnu darpariaeth ddigonol.

67 Nid oes unrhyw ysgolion AC yn cynnig ystod lawn o bynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol neu raglenni astudio i ddisgyblion. Nid oes gan yr ysgolion bach hyn staff â digon o wybodaeth bwnc arbenigol bob tro i ymdrin â'r Cwricwlwm Cenedlaethol cyfan, sy'n golygu nad yw'r cynnwys efallai yn briodol ar gyfer y disgyblion bob tro. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn defnyddio rhai elfennau'r Cwricwlwm Cenedlaethol mewn gwaith cynllunio. Yn yr arfer orau, mae athrawon yn ddyfeisgar iawn wrth ehangu'r cwricwlwm trwy ddefnyddio gwybodaeth a diddordebau staff gofal a gwneud y defnydd gorau o gyfleusterau lleol.

68 Mae ysgolion AC eraill yn gyffredinol yn cynnig rhaglen gymysg sy'n cynnwys medrau sylfaenol llythrennedd a rhifedd, yn ogystal â chyrsiau priodol mewn medrau bywyd fel coginio a rheoli cyllid. Mae llawer o ysgolion yn addasu ac yn ymestyn cynlluniau gwaith a gyhoeddwyd yn fasnachol yn dda i wneud yn siwr bod disgyblion yn cael digon o brofiad ym mhob un o'r saith maes dysgu.

69 Mae gweithgaredd corfforol yn nodwedd gref ar y cwricwlwm bron ym mhob ysgol ac mae disgyblion yn cymryd rhan yn fodlon. Caiff disgyblion gyfleoedd da i ddefnyddio cyfleusterau lleol fel pyllau nofio, ac mewn rhai achosion, maent yn perthyn i glybiau

a thimau chwaraeon. Profiad o weithgaredd creadigol yw'r maes gwannaf ac er bod rhai disgyblion yn cael gwersi celf, ychydig iawn o ddarpariaeth sydd ar gyfer cerddoriaeth. Yr unig eithriad yw ysgol sy'n darparu therapi cerddoriaeth o ansawdd da iawn.

70 Er bod un ysgol AC yn addysgu disgyblion trwy'r rhyngrwyd, nid yw'r mwyafrif yn rhoi mynediad i'r rhyngrwyd i ddisgyblion, naill ai am resymau personol neu am resymau diogelwch. Caiff bron pob un o'r plant y gofelir amdanynt fynediad at gyfrifiaduron ond gallant dim ond ddefnyddio'r rhyngrwyd o dan oruchwyliaeth yn eu llyfrgell leol, ac mae hyn yn cyfyngu'r amser sydd ganddynt i ddatblygu medrau ymchwil.

## Ansawdd y cynllunio

71 Mae gan bob disgybl unigol anghenion a diddordebau penodol iawn. Mae'n arbennig o anodd i ysgolion gynllunio a datblygu cyrsiau priodol ar gyfer niferoedd bach iawn o ddisgyblion pan fydd trosiant rheolaidd o ddisgyblion. Gallai awdurdodau lleoli symud disgyblion yn fyr rybudd am resymau cymdeithasol neu oherwydd penderfyniadau cyllid sydd y tu hwnt i reolaeth yr ysgol.

72 Mae llawer o ysgolion AC yn cynllunio gwersi a phrosiectau priodol sy'n rhoi ystyriaeth dda i anghenion a diddordebau disgyblion. Yn yr arfer orau, mae ysgolion AC yn cynllunio yn fanwl ac mae gan athrawon syniadau arloesol sy'n cymell disgyblion ac yn ysgogi eu hawydd i ddysgu. Lle mae disgyblion wedi bod y tu allan i fyd addysg ers tro, mae hyn yn hanfodol os ydynt am wneud cynnydd.

73 Mewn rhai ysgolion AC, mae'r cynllunio yn llawn dychymyg. Er enghraifft, mae athro yn dal sylw disgybl trwy ddefnyddio cyfnod byr o amser addysgu uniongyrchol 1:1 i ddarparu ystod eang o weithgareddau ymarferol sydd wedi'u cynllunio'n dda ar draws gwahanol feysydd dysgu, fel nad yw'r disgybl yn diflasu neu'n ymddwyn yn heriol. Mae ysgol AC arall yn cynllunio prosiect i dyfu llysiau ar gyfer y gegin sy'n cynnwys ystod o weithgareddau rhifedd, gan gynnwys ryseitiau, graffiau a mesuriadau.

74 Mae'n bwysig i ddisgyblion bod staff addysg a staff cymorth yn gweithio'n agos â'i gilydd. Caiff disgyblion y canlyniadau gorau pan fydd athrawon yn cynnwys staff gofal yn llawn yn y broses o gynllunio'r rhaglen addysg er mwyn i bawb ddeall yr amcanion dysgu ac mae staff gofal yn hyderus o ran gwybod diben a gwerth gweithgareddau dilynol. Mewn llawer o ysgolion AC, mae staff gofal yn rhoi cymorth da i ddisgyblion yn yr ystafell ddosbarth ac maent yn ymuno mewn gweithgareddau er mwyn i ddisgyblion sylweddoli gwerth addysg i bawb yng nghymuned yr ysgol.

75 Mae'r astudiaeth achos isod yn egluro'r modd y mae un ysgol AC yn cynllunio cyfleoedd dysgu ychwanegol ar gyfer disgyblion sy'n cynnwys staff gofal.

**Astudiaeth achos 1**

**Cyd-destun**

Ysgol AC wledig mewn cartref plant sydd â thri disgybl ar y gofrestr ysgol sy'n 14-16 oed. Mae'r astudiaeth achos yn egluro enghraifft o gynllunio da sy'n cynnwys staff gofal.

**Strategaeth**

Mae'r athro yn cynllunio rhaglen unigol o wersi ar gyfer pob disgybl ac yn cyflwyno addysgu un i un am un sesiwn o ryw awr bob dydd. Mae cynorthwyydd cymorth dysgu hyfforddedig yn ymwneud â'r broses gynllunio ac yn goruchwylio'r ddau ddisgybl arall. Mae'r ddau aelod o staff hyn yn treulio hanner diwrnod yn yr ysgol ac yn darparu rhaglen o weithgareddau dilynol priodol am weddill y diwrnod ysgol y bydd staff gofal yn eu goruchwylio.

**Gweithredu**

Yn ychwanegol, mae'r ysgol hon yn cynllunio testunau dyddiol dewsiol am y mis, sy'n mynd y tu hwnt i'r diwrnod ysgol ac yn rhoi syniadau da i staff cymorth ar gyfer gwaith sy'n ychwanegu at y cwricwlwm dyddiol pe bai disgyblion yn dymuno ymestyn eu dysgu.

Cyhoeddir pwyntiau gwobrwyo ar y daflen destun er mwyn i ddisgyblion wybod yr hyn y gallent ei gyflawni. Mae'r syniadau yn cynnwys mis o 'ddiwrnodau arbennig' lle gall disgyblion ymchwilio i ddigwyddiadau hanesyddol yn y mis hwnnw ac ysgrifennu amdanynt, er enghraifft, ym 1911 pan gafodd y Mona Lisa ei dwyn, Cwpan cyntaf America ym 1851 neu araith "Mae gen i freuddwyd" Martin Luther King ym 1963.

**Canlyniadau**

Mae canlyniadau yn dangos bod disgyblion yn mwynhau'r her a'u bod yn gweithio'n galed i ennill pwyntiau gwobrwyo ychwanegol. Mae staff gofal yn gadarnhaol ynglŷn â chael testunau penodol i'w cefnogi.

76 Mae ysgolion 'ychwanegol' (ysgol mewn adeilad ychwanegol ar safle cartref plant) yn cael cyfarfodydd trosglwyddo effeithiol bron bob tro ar ddiwedd sifftiau staff pan fydd disgyblion, athrawon a staff gofal yn trafod ac yn arfarnu digwyddiadau'r dydd neu'r nos yn ffurfiol. Mae'r cyfarfodydd hyn yn rhoi cyfleoedd da i bawb siarad am ddysgu disgyblion, dathlu llwyddiant a chynllunio gweithgareddau ar gyfer y dyfodol.

77 Lle bydd disgyblion yn mynychu'r ysgol 'ategol' (ysgol sy'n perthyn i'r sefydliad lle mae disgyblion o wahanol gartrefi plant yn teithio i'r ysgol), ceir cysylltiadau da rhwng y cartref a'r ysgol trwy lyfr cofnodion wythnosol.

78 Mewn rhai ysgolion AC, nid yw athrawon yn defnyddio cynlluniau gwaith neu ddeunyddiau cyhoeddedig yn ddigon da i ddatblygu prosiectau sy'n cymell disgyblion. Mae disgyblion yn arbennig o heriol pan nad yw'r gwaith yn ddiddorol ac nid yw'r tasgau yn briodol i'w hoedran. Er enghraifft, nid yw llawer o ddisgyblion yn

ymateb yn dda i daflenni gwaith wedi'u llungopïo sy'n ailadrodd tasgau diflas sydd eisoes wedi methu ennyn diddordeb disgyblion, pan wnaethant fynychu lleoliadau eraill.

79 Mewn cartrefi preifat i blant lle nad yw dysgwyr yn mynychu ysgol neu uned cyfeirio disgyblion, mae diffygion yn ehangder a chydbwysedd y cwricwlwm. Yn gyffredinol, mae hyn yn arwain at ormod o weithgaredd personol a chymdeithasol fel siopa a choginio neu weithgaredd anffurfiol sy'n cael ei bennu gan y person ifanc. Yn yr achosion gwaethaf, ni fydd pobl ifanc yn codi o'u gwelyau hyd yn oed ar gyfer y math hwn o weithgaredd, oherwydd nad yw staff yn gwybod sut i ennyn diddordeb a chymell y rheiny sy'n 'anodd eu cyrraedd' neu gynllunio gweithgareddau â her addas.

## Canlyniadau

80 Mae cyrhaeddiad addysgol plant y gofelir amdanynt yng Nghymru yn amrywiol ar draws gwahanol awdurdodau lleol ond mae'n gyffredinol wael.

81 Roedd 'Arweiniad ar addysg plant sy'n derbyn gofal gan awdurdodau lleol' Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2001, yn datgan:

> "Mae diffyg data dibynadwy am amgylchiadau a chanlyniadau addysgol plant sy'n derbyn gofal fel grŵp ar wahân, a gwybodaeth fanwl am eu cynnydd unigol, wedi bod yn un o'r prif rwystrau at wella eu cyrhaeddiad".

Cyfyngedig iawn yn unig fu'r cynnydd yn y broses o gasglu data er hynny.

82 Yn ôl yr Uned Data Llywodraeth Leol[9], hyd at 31 Mawrth 2005, sef y dyddiad olaf y mae data penodol am blant y gofelir amdanynt ar gael ar ei gyfer, dim ond 35% o blant 15 oed y gofelir amdanynt yng Nghymru a enillodd o leiaf 2 gymhwyster TGAU. Pan oeddent yn gadael yr ysgol, methodd 58% i ennill cymhwyster TGAU unigol neu gymhwyster cyfwerth[10].

83 Nid yw'n briodol cymharu cyrhaeddiad disgyblion mewn ysgolion AC â chyfartaleddau lleol a chenedlaethol, gan fod yr ysgolion hyn yn darparu ar gyfer nifer fach iawn o ddisgyblion y mae eu gallu a'u cyrhaeddiad addysgol blaenorol yn wahanol o un flwyddyn i'r llall.

84 Mewn ysgolion AC, mae llawer o ddisgyblion yn gweithio ar lefelau sy'n llawer is na'u hoedran cronolegol er nad yw hyn o angenrheidrwydd yn dangos diffyg o ran eu gallu. Mae cofnodion disgyblion a staff yn cadarnhau nad yw llawer o'r disgyblion hyn wedi cael eu haddysgu mewn un lle am gyfnod digon hir i lwyddo mewn cyrsiau achrededig.

85 Mae bron pob ysgol AC yn datblygu cwmpas eu darpariaeth yn raddol i gynnig cyfleoedd i ddisgyblion ddilyn cyrsiau achrededig a fydd yn arwain at gymwysterau. Mae'r datblygiadau hyn ym mhob ysgol AC mewn cyfnod cynnar oherwydd bod yr ysgolion yn newydd. Serch hynny, mae athrawon yn ymchwilio i ddewisiadau

---

[9] Mae'r Uned Data Awdurdod Lleol yn casglu gwybodaeth yn flynyddol gan ysgolion a gynhelir trwy'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (PLASC). Nid yw'r data yn cynnwys gwybodaeth benodol am blant y gofelir amdanynt.

[10] Mae'r wybodaeth hon yn cyfeirio at blant y gofelir amdanynt sy'n ddisgyblion mewn ysgolion a gynhelir.

gwahanol yn briodol, maent yn mynychu hyfforddiant i gynyddu eu gwybodaeth a'u medrau personol, ac yn ehangu ystod y cyrsiau a'r dewisiadau sydd ar gael i ddisgyblion.

86 Gallai ystod y cyrsiau mewn ysgolion AC gynnwys Medrau Sylfaenol, cyrsiau TGAU neu CGC ar lefelau priodol. Fodd bynnag, mae cyfleoedd ar gyfer cyrsiau TGAU fel arfer yn gyfyngedig iawn oherwydd gwybodaeth bwnc gyfyngedig athrawon, yr anawsterau wrth sefydlu cyrsiau priodol ar gyfer disgyblion unigol a diffyg rhyngweithio rhwng yr ysgol AC a darparwyr lleol eraill a allai gynnig cymorth.

87 Mae pob ysgol yn cynnig cyfleoedd i ddisgyblion ennill medrau bywyd amrywiol cydnabyddedig a gynigir gan ASDAN. Mae'r cyrsiau hyn yn effeithiol oherwydd eu bod yn galluogi disgyblion i weithio yn unigol a datblygu prosiectau o ddiddordeb iddynt er bod ansawdd gwaith disgyblion yn amrywiol. Nid oes gan rai athrawon ddisgwyliadau digon uchel ac nid ydynt yn dysgu sut i safoni gwaith cwrs disgyblion yn dda.

88 Mae bron pob ysgol AC yn trefnu bod disgyblion yn cael cyfleoedd addas i ennill gwobrau chwaraeon achrededig trwy ddarparwyr addysg awyr agored cyswllt a chlybiau chwaraeon.

89 Mewn dwy ysgol AC lle caiff disgyblion gyfleoedd arbennig o dda, mae llwyddiannau'r disgyblion yn aml yn annog ymdrechion disgyblion eraill yn yr ysgol.

90 Mae gan ddwy o'r 20 ysgol AC hanes o lwyddiant arbennig o dda. Mewn un ysgol, caiff disgyblion y gofelir amdanynt ganlyniadau gwell mewn cyrsiau TGAU na'r meincnodau cenedlaethol ar gyfer grwpiau tebyg. Mae ysgol arall wedi cael llwyddiant nodedig gyda disgybl y gofelir amdano yn cael ei gefnogi i symud i gwrs gradd prifysgol. Mae'r ddwy ysgol yn darparu addysgu da ac mae ganddynt uwch staff addysgu sefydlog. Mae'r ysgolion hyn hefyd yn gwneud eu disgwyliadau yn glir ac yn rhoi cymorth cyson i ddisgyblion.

91 Yn sgil astudiaeth 'Going to university from care' 2005, canfuwyd bod "ansawdd y lleoliad terfynol yn bwysicach na nifer gyffredinol y lleoliadau, a oedd yn amrywio o ddau i 33". Mae'r astudiaeth achos isod yn enghraifft o blentyn y gofelir amdano yn mynd yn ei flaen i brifysgol o ysgol annibynnol gofrestredig mewn cartref plant.

**Astudiaeth achos 2**

**Cyd-destun**

Cartref plant mewn tref fawr yn ne Cymru yw'r ysgol. Mae tri pherson ifanc 14-18 oed yn byw yno, ac mae dau ohonynt yn ddisgyblion yn yr ysgol. Roedd un person ifanc yn byw yn y cartref plant am ddwy flynedd a hanner. Yn ystod y cyfnod hwn, roedd ei henw ar gofrestr coleg lleol am 4 diwrnod yr wythnos, yn astudio ar gyfer Cymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol. Roedd hefyd yn mynychu'r ysgol AC am 1 diwrnod yr wythnos i ddilyn cyrsiau ASDAN[11]. Fodd bynnag, roedd y person ifanc yn fyfyrwraig amharod yn y coleg ac roedd ei phresenoldeb yn isel, sef 62%. Yn 2004, ymunodd athro newydd â'r staff yn yr ysgol AC.

**Strategaeth**

Cyflwynodd yr athro newydd system fwy trylwyr o asesu medrau sylfaenol a gweithiodd yn galed i ddatblygu perthynas gadarnhaol gyda disgyblion. Hefyd, datblygodd yr athro gynlluniau addysg unigol (CAUau) manwl ar gyfer disgyblion. I ddechrau, gwrthododd y person ifanc i gydweithredu, ond dros gyfnod, fe wnaeth ei phresenoldeb yn yr ysgol a'r coleg wella i 100% ac fe ddaeth yn fwy parod i gymryd rhan mewn asesiadau rheolaidd. Mae ei sgorau mewn profion medrau sylfaenol yn dangos gwelliant sylweddol dros gyfnod o ddwy flynedd.

**Gweithredu**

Roedd angen cymorth cyson ar y person ifanc gan athro'r ysgol AC a staff gofal yn y cartref plant i'w galluogi i gwblhau gwaith cwrs coleg. Byddai tiwtoriaid y coleg yn cysylltu â'r cartref plant a byddai staff yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod gwaith y person ifanc yn cael ei gwblhau mewn pryd. Llwyddodd y person ifanc yn ei chyrsiau CGC ac ASDAN yn y pen draw.

Fe wnaeth y person ifanc hwn allu mynychu diwrnodau agored prifysgol gyda staff gofal ac fe wnaeth athro'r ysgol AC ei chefnogi i gwblhau ei chais a'i datganiad personol. Fe wnaeth y coleg hefyd ei chefnogi wrth baratoi ar gyfer cyfweliadau.

**Canlyniad**

Roedd cais y person ifanc i brifysgol yn llwyddiannus ac mae hi bellach ar ei hail flwyddyn mewn cwrs gradd.

Gellir priodoli llwyddiant y fyfyrwraig hon i:

- ddisgwyliadau clir athro'r ysgol AC a chynllunio gofalus yn seiliedig ar asesu priodol;

[11] Mae ASDAN yn cynnig ystod eang o Ddyfarniadau a Chymwysterau ar gyfer pobl ifanc o bob gallu. Eu nod yw cydnabod a gwobrwyo eu medrau wrth iddynt gwblhau 'Heriau Personol' mewn meysydd fel chwaraeon, byw yn iach, cyfranogiad cymunedol, profiad gwaith, y celfyddydau mynegiannol, perthnasoedd, dinasyddiaeth, cyllid personol a menter.

- gwelliant dilynol yn ymddygiad a hunan-barch y fyfyrwraig;
- gwaith tîm a chymorth y staff addysgu a'r staff gofal yn y cartref plant a'r cysylltiadau cadarnhaol a wnaethant gyda'r coleg; a'r
- pwysigrwydd a roddir i addysg gan y sefydliad sy'n gweithredu'r cartref plant.

## Adnoddau

### Cymwysterau staff a'r defnydd a wneir ohonynt

92 Mae bron pob ysgol AC yn cyflogi athrawon â chymwysterau addysgu'r DU neu dramor, er mewn tua hanner yr ysgolion nid ydynt yn gymwys nac yn brofiadol ar gyfer grŵp oedran y disgyblion y maent yn eu haddysgu.

93 Yn yr arfer orau, mewn tua 15% o ysgolion, mae gan athrawon brofiad sylweddol a'r hyder i wneud darpariaeth dda ar gyfer rhai disgyblion heriol iawn. Fodd bynnag, nid oes gan nifer fach o athrawon ddigon o brofiad i wybod sut i gynllunio'n briodol ac mae hyn yn effeithio ar ymddygiad a chynnydd disgyblion. Mae'r athrawon hyn bron bob tro yn gweithio ar eu pen eu hunain mewn ysgolion AC bach iawn lle nad oes llawer o gyfle iddynt arsylwi athrawon eraill mewn gwersi neu drafod a rhannu eu profiadau gyda chydweithwyr. Mae'r un athrawon hyn wedi cadarnhau nad ydynt yn gwybod digon am y gwaith da mewn ysgolion tebyg.

94 Mae'r rhan fwyaf o'r 15 ysgol AC fach iawn mewn cartrefi plant yn cyflogi un athro yn unig. Yn yr ysgolion hyn, wrth gwrs, mae ansawdd yr athro unigol hwnnw yn arwyddocaol iawn. Nid yw rhai ysgolion yn neilltuo digon o amser addysgu uniongyrchol i ddisgyblion gael eu hawl addysgol lawn. Fodd bynnag, os yw'r amser sy'n cael ei neilltuo wedi'i gynllunio'n dda iawn ac mae staff gofal yn cymryd rhan yn llawn i gefnogi prosiectau dilynol o ansawdd da, gall disgyblion wneud cynnydd gwell a gwella eu hagweddau at ddysgu yn gyflymach na mewn ysgolion sy'n cynnig mwy o amser ond addysgu gwaeth.

95 O bryd i'w gilydd, mae athrawon yn yr ysgolion AC lleiaf yn ei chael yn rhy anodd addysgu disgyblion heriol, ac maent yn symud ymlaen yn gyflym. Mae'r trosiant staff yn tarfu ar addysg disgyblion sy'n agored iawn i niwed, yn enwedig os oes dim ond un athro yn yr ysgol.

96 Mae gan rai athrawon wybodaeth a phrofiad da iawn o ddisgyblion â datganiadau o anghenion addysgol arbennig ac maent yn defnyddio hyn yn dda i gynllunio'n briodol a helpu staff llai profiadol.

97 Mae dwy ysgol AC 'ychwanegol' sy'n addysgu disgyblion ag anghenion addysgol arbennig sylweddol yn defnyddio staff proffesiynol cymwys yn effeithiol i gefnogi'r rhaglen addysg. Mae'r rhain yn cynnwys seicolegwyr addysg, therapyddion lleferydd ac iaith, a therapyddion cerddoriaeth a chelf.

98 Mae bron pob ysgol AC yn trefnu anfon staff ar gyrsiau hyfforddi priodol i hyrwyddo lles disgyblion, er enghraifft, mewn cymorth cyntaf. Mewn nifer fach iawn o ysgolion, caiff gweithwyr gofal eu hannog a'u cefnogi i ennill cymwysterau fel cynorthwywyr cymorth dysgu er mwyn datblygu eu medrau i helpu disgyblion yn ystod oriau gwersi a'r tu allan iddynt. Yn yr ysgolion hyn, mae'r tîm staff yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i hyrwyddo addysg ond nid yw hyn yn digwydd yn ddigon aml mewn ysgolion eraill.

99 Mae'r cyfleoedd i athrawon fynychu hyfforddiant cwricwlwm yn amrywio gormod o un ysgol i'r llall. Yn yr arfer orau, mae athrawon yn mynychu cyrsiau yn rheolaidd i

ddatblygu eu medrau a dysgu mwy, er enghraifft, am gyrsiau achrededig. Nid yw tua 30% o ysgolion AC yn gwneud digon i gefnogi athrawon i ddatblygu eu gwybodaeth am y cwricwlwm a strategaethau addysgu.

## Darpariaeth adnoddau dysgu

100 Mae'r adeiladau ar gyfer addysg mewn ysgolion AC yn ddigon da bron bob tro. Mae gan ysgolion AC 'ychwanegol' adeiladau a thir da iawn gydag ystafelloedd pwnc arbenigol, ag offer da. Mae bron pob ysgol AC mewn cartrefi plant yn darparu ystafelloedd addas ar wahân ar gyfer addysg. Yr eithriad yw ysgol sy'n darparu addysg trwy'r rhyngrwyd a ble mae disgyblion yn gweithio yn y llety y maent yn byw ynddo ond yn mynychu cyswllt ysgol yn wythnosol ar gyfer gweithgareddau yn yr ystafell ddosbarth.

101 Mae pob ysgol AC yn gwneud darpariaeth dda iawn ar gyfer gweithgareddau corfforol disgyblion trwy gael mynediad at gyfleusterau lleol, gan gynnwys pyllau nofio, canolfannau chwaraeon, parciau, darparwyr addysg awyr agored a chlybiau chwaraeon.

102 Caiff y rhan fwyaf o ddisgyblion fynediad priodol at offer technolegol sy'n cynnwys cyfrifiaduron, teledu, chwaraewyr fideo a cherddoriaeth.

103 Yn y rhan fwyaf o ysgolion AC, mae darpariaeth y llyfrau ac adnoddau dysgu eraill yn ddigonol ond wedi'i chyfyngu o ran nifer. Yn gyffredinol, mae gan ysgolion rai adnoddau ar gyfer pynciau ymarferol fel celf, dylunio a thechnoleg a cherddoriaeth.

104 Caiff y rhan fwyaf o ddisgyblion gyfleoedd da i ymweld â mannau o ddiddordeb lleol. Er enghraifft, datblygodd un ysgol AC brosiect y dyniaethau o ansawdd da am ddiddordeb disgybl mewn cestyll ac ymwelodd â sawl castell yn ne Cymru. Mae'r ysgolion AC mewn cartrefi plant yn aml yn cynllunio rhaglen ddilynol sy'n cynnwys ymweliadau ag amgueddfeydd, orielau a llyfrgelloedd, ond mae ansawdd a diben y gwaith hwn yn amrywio gormod.

105 Mae gormod o ysgolion AC nad ydynt yn cydymffurfio â gofynion Rheoliadau Gwahaniaethau ar Sail Anabledd (Cymru) 2003. Nid ydynt yn cynllunio yn ddigon da i fodloni anghenion disgyblion anabl a allai ymuno â'r ysgol yn y dyfodol neu ar gyfer anghenion staff ac ymwelwyr.

## Lles dysgwyr

### Presenoldeb a phrydlondeb

106 Dim ond rhai ysgolion AC sy'n cynnal cofrestri presenoldeb dyddiol sy'n cydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003. Nid yw'r rhan fwyaf o ysgolion yn sylweddoli pwysigrwydd cynnal cofrestri dyddiol cywir sy'n cofnodi rhesymau dros absenoldeb a phrydlondeb disgyblion. O ganlyniad, nid ydynt yn gallu monitro patrymau disgyblion yn cyrraedd yn hwyr a'u diffyg presenoldeb yn ddigon da.

107 Mewn ysgolion AC mewn cartrefi plant, mae presenoldeb yn aml yn broblem. Gallai disgyblion fod yn amharod i godi yn y bore ac maent yn cyrraedd yn hwyr ar gyfer gwersi ac yn tarfu ar ddysgu disgyblion eraill. Yn yr achosion gwaethaf, mae disgyblion yn ymosodol tuag at staff neu maent yn dianc o'r ysgol. Mae hyn yn llai tebygol lle mae'r gwersi'n ddiddorol ac yn cael eu cynllunio'n briodol, lle mae pob un o'r staff yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i hyrwyddo pwysigrwydd addysg, lle caiff systemau gwobrwyo eu defnyddio yn effeithiol.

108 Nid yw'n ofynnol i gartrefi plant nad ydynt yn gysylltiedig ag ysgolion AC gadw cofrestri presenoldeb addysg dyddiol ac mae'r broses o fonitro presenoldeb y bobl ifanc hyn ar gyfer addysg yn annigonol.

### Systemau gwobrwyo

109 Mae gan bron pob ysgol AC systemau gwobrwyo effeithiol.

110 Mewn ysgolion AC mewn cartrefi plant, dyfernir pwyntiau i ddisgyblion fel arfer tuag at dalebau, tripiau arbennig neu arian poced ychwanegol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymateb yn dda pan ddefnyddir y system yn gyson ar draws addysg a gofal. Mae staff a disgyblion fel arfer yn cyfathrebu'n dda, er enghraifft, mewn cyfarfodydd trosglwyddo lle gallai disgyblion gael eu canmol am lwyddiant ac ymddygiad da neu drafod eu camweddau.

111 Mae diffygion mewn tua 10% o ysgolion lle mae disgwyliadau yn aneglur i ddisgyblion ac nid yw staff yn gweithio gyda'i gilydd yn ddigon da i ddarparu dull cyson.

### Cysylltiadau â darparwyr addysg eraill a'r gymuned

112 Mae llawer o ysgolion AC yn meithrin cysylltiadau da gydag ysgolion a gynhelir a cholegau lleol gyda'r bwriad o ail ennyn diddordeb eu disgyblion mewn addysg amser llawn. Yn yr arfer orau, mae ysgolion AC yn effeithiol wrth gefnogi disgyblion i fynychu ysgolion a gynhelir i ddechrau yn aml ar sail ran-amser ar gyfer rhaglen addysg briodol ond cyfyngedig. Er enghraifft, mae dwy ysgol AC lle'r oedd gan ddisgyblion hanes blaenorol o bresenoldeb gwael wedi bod yn llwyddiannus wrth gefnogi disgyblion sydd bellach yn mynychu cyrsiau coleg amser llawn.

113 Os yw disgyblion am gael eu hawl lawn i addysg, rhaid i'r ysgol a darparwyr eraill weithio gyda'i gilydd yn agos i sicrhau bod pawb sy'n gysylltiedig yn gwybod graddau'r cwricwlwm a ddarperir. Mae ansawdd y cynllunio cydweithredol hwn yn hynod amrywiol. Yr ysgol lle mae'r disgybl ar y gofrestr sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am reoli'r addysg. Fodd bynnag, nid yw nifer fach iawn o ddisgyblion yn gwybod beth mae eu disgyblion yn ei ddysgu mewn lleoedd eraill ac a ydynt yn gwneud cynnydd.

114 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi adeiladu ystod dda o gysylltiadau addysgol a chymunedol. Mae rhai ysgolion yn datblygu cysylltiadau priodol gyda Gyrfa Cymru a darparwyr profiad gwaith addas. Mae tua hanner yr ysgolion cofrestredig yn defnyddio cyfleusterau chwaraeon a llyfrgelloedd lleol.

115 Mae nifer fach o ysgolion yn gweithio'n galed i integreiddio eu disgyblion yn y gymuned leol, er enghraifft, trwy fynychu digwyddiadau lleol, trefnu defnyddio'r pwll nofio mewn ysgol gynradd neu fynd â disgyblion i eglwys os ydynt yn dymuno mynychu. Mae hon yn nodwedd gref ar ddarpariaeth dda o ran cartref plant oherwydd ei bod yn meithrin ymglymiad ac ymdeimlad o 'berthyn'.

## Atodiad 1

Mae Rhan 10 Deddf Addysg 2002 yn ei gwneud yn ofynnol bod yn rhaid i bob ysgol annibynnol fod wedi'i chofrestru â Chynulliad Cenedlaethol Cymru cyn i ysgol ddechrau gweithredu. Mae'r rheoliadau a wnaed o dan y Ddeddf yn amlinellu ystod o "Safonau" bod yn rhaid i bob ysgol annibynnol fodloni amod cofrestru. Mae'r rheoliadau hyn yn cynnwys:

- ansawdd yr addysg a ddarperir;
- datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion;
- lles, iechyd a diogelwch disgyblion;
- addasrwydd perchnogion a staff;
- yr adeiladau a'r llety;
- darparu gwybodaeth; a'r
- modd yr ymdrinnir â chwynion.

## Atodiad 2

**Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003**

**Safon 1:  Ansawdd yr addysg a ddarperir**

**(dyfyniad)**

Mae ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol yn bodloni'r safon os bodlonir y gofynion.

Rhaid i'r ysgol lunio a gweithredu polisi ysgrifenedig yn effeithiol ar y cwricwlwm wedi'i gefnogi gan gynlluniau a chynlluniau gwaith priodol, sy'n darparu ar gyfer:

- addysg amser llawn dan oruchwyliaeth ar gyfer pob disgybl o oedran ysgol gorfodol, sy'n rhoi profiad i ddisgyblion yn y meysydd canlynol: addysg ieithyddol, fathemategol, wyddonol, dechnolegol, dynol a chymdeithasol, corfforol ac esthetig a chreadigol.

## Atodiad 3

### Cynlluniau addysg personol

Mae gofyniad statudol i bob plentyn y gofelir amdano gael Cynllun Addysg Personol (CAP). Caiff CAP ei adeiladu ar sail trafodaethau rhwng y plentyn y gofelir amdano, y gweithiwr cymdeithasol, yr athro dynodedig, y gofalwyr a'r rhieni. Dylai ganolbwyntio ar y camau sy'n ofynnol er mwyn i'r plentyn gyrraedd ei botensial/photensial llawn. Rhaid i'r cynllun ymdrin â:

- chofnod cyflawniad (academaidd neu fel arall);
- anghenion datblygiadol ac addysgol;
- targedau tymor byr; a
- chynlluniau a dyheadau tymor hir.

Dylai'r CAP gyfrannu i sefydlogrwydd bywyd y plentyn y gofelir amdano, gan sicrhau cyn lleied o aflonyddu a methiant â phosibl mewn lleoliad ysgol. Dylai hefyd gyfrannu i ynysu anghenion addysgol arbennig.

## Cyfeiriadau


Rhaglen Plant yn Gyntaf yng Nghymru: Arweiniad ar gyfer 2005-2006 (Cylchlythyr 05/2005 Llywodraeth Cynulliad Cymru)

Children's homes and school exclusion: Isabelle Brodie (Jessica Kingsley Publishers 2001)

Children in care and missing out on education (Ofsted 2001)

Combating child poverty in Wales: Are effective education strategies in place? David Egan (Sefydliad Joseph Rowntree 2007)

Going to university from care: S.Jackson et al (The Frank Buttle Trust 2005)

Arweiniad ar addysg plant sy'n derbyn gofal gan awdurdodau lleol (Cylchlythyr 2/2001 Cynulliad Cenedlaethol Cymru)

Cynhwysiad a Chymorth (Cylchlythyr 47/2006 Cynulliad Cenedlaethol Cymru)

Independent Schools Information and Registration Handbook (DfTE Information Document No:013/04)

Arfer awdurdodau lleol wrth fonitro lleoliad disgyblion sy'n cael eu haddysgu y tu allan i leoliad yr ysgol a'r rheiny sydd ar goll o addysg (Estyn Mai 2007)

Residential Care and Education: Improving practice in residential special schools in Scotland (Y Comisiwn Gofal ac HMIE yn Yr Alban 2004)

TES Cymru (3 ac 16 Chwefror 2006)

Tuag at Fywyd Sefydlog a Dyfodol Gwell (Llywodraeth Cynulliad Cymru Mehefin 2007)


Nid yw adroddiadau AGGCC ar gartrefi plant yn ddogfennau cyhoeddus. Rhoddodd AGGCC ganiatâd yn garedig ar gyfer mynediad at sampl o adroddiadau diweddar.